CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/01/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Wil Lake | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Gruffydd Willliams | Gareth Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Arfon Hughes | Iwan Evans |
| Rhian Sanson | Rhys Llewelyn | Carys Roberts | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Caren Jones a Lleucu Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/12/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Arfon Hughes
   **Materion yn codi o'r cofnodion:**
   Mae aelod lleol Morfa Nefyn yn falch o weld bod y goeden oedd yn tyfu ar fedd ym mynwent Morfa Nefyn wedi cael ei thorri ar ôl i'r pwyllgor basio i'r clerc yrru llythyr i'r perchnogion i dorri'r goeden.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Rali 'Nid yw Cymru ar Werth' Nefyn 29ain Mawrth –** Cadeirydd
      Rhannodd y cadeirydd wybodaeth ynglŷn â'r rali sydd yn Nefyn ac yn gwahodd i unrhyw un o'r aelodau i ymuno â'r grŵp Whatsapp y trefnu.
   2. **Llwybr Cliffs –** Gruffydd Williams
      Mae cŵyn wedi ei dderbyn gan perchnnog y Cliffs Morfa Nefyn ynglŷn â'r llwybr newydd aml ddefnydd a gafodd ei wneud y llynedd sydd yn arwain at faes parcio'r Cliffs. Gan nad yw'r perchennog wedi rhoi caniatad nid oes modd torri i fewn i faes parcio'r Cliffs ac felly gofynwyd i'r contractwr sicrhau bod y llwybr newydd yma wedi ei gau am y tro ond yn ôl perchennog y Cliffs mae pobol yn dal i'w gerdded ac yn dringo dros y ffens i'r maes parcio ac felly mae difrod i'r ffens. Mae'r clerc am gysylltu hefo'r contractwr i ofyn iddo sicrhau fod y llwybr wedi ei gau a bod dim modd i neb ei gerdded nes y bydd datrusiad wedi ei gael ynglŷn â cael mynediad i fewn i faes parcio'r Cliffs.
   3. **Llwybr Lôn Pwll William –** Gareth Jones
      Mae aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu hefo aelod lleol Morfa Nefyn i ofyn am gyfraniad gan CTN i roi llechi mân ar y llwybr troed sy'n arwain o Lôn Pwll William i Lôn Penrallt. Mae'r aelod lleol am wneud yn siwr cyfrifoldeb pwy ydi'r llwybr yma ac os ydi CTN yn gyfrifol yna

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

mae o am gysylltu yn ôl i egluro sefyllfa ariannol CTN ac fe fydd y mater yn cael ei roi ar agenda mis Mai.

5. **Prosiect Bro -** cyflwyniad gan Dr Richard Glyn Roberts
Cafwyd cyflwyniad ar y prosiect ac fe gafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwesitynnau ar y diwedd. Fe fydd Astudiaeth o Gymdeithaseg Gymraeg yn dod i Nefyn ar y 3ydd o Chwefror ac mae Dr Richard Glyn Roberts am yrru gwybodaeth ynglŷn â'r astudiaeth i'r clerc rhyw wythnos ynghynt er mwyn i'r aelodau ei ddwyn i sylw trigolion Nefyn.

6. **Polisi Gosod Lleol –** Gruffydd Williams
Cafwyd cyflwyniad byr ac eglurhad ar y Polisi Gosod Lleol gan aelod lleol Nefyn. Derbyniwyd memorandwm o ddealltwriaeth hefyd gan Perthyn gan ofyn cefnogaeth CTN iddo.
Penderfyniad: pleidleiswyd yn unfrydol o blaid y memorandwm o ddealltwriaeth.

7. **Planters Nefyn, Morfa ac Edern –** Clerc
Mae'r planters wedi cyrraedd ers cyn y nadolig ac yn garej y clerc felly mae angen eu lleoli yn y tri pentref. Mae aelod lleol Nefyn wedi cynnig mynd a nhw i'r tri lleoliad ac am gysylltu hefo'r clerc dros y penwythnos i drefnu eu casglu.
Dyma'r lleoliad yn y tri pentref: Nefyn – Côf Golofn, Morfa – Cae Coch ac Edern – Y Bont.
Fe fydd yn rhaid i'r aelodau drefnu rhoi pridd yng ngwaelod y potiau cyn gynted a phosibl. Mae un o aelodau Morfa Nefyn wedi gofyn am help i glirio'r potiau o gwmpas y pentref ac am roi pridd yn y 'planter' newydd yr un amser.

8. **Llwybr o flaen tafarn Ty Coch –** diweddariad
Mae un o'r aelodau wedi bod yn siarad hefo perchennog y ty sydd wedi rhoi y rhwystr ar y llwybr ac mae'r rhwystrau wedi cael eu symud a'r llwybr yn glir unwaith eto. Y rheswm paham rhoddwyd y rhwystrau yn eu lle i atal pobol eistedd y tu allan i'w dŷ yn ystod yr haf. Fe fydd rhaid cadw llygaid ar y sefyllfa.

9. **Gwresogyddion Siop Siarad –** Arfon Hughes
Mae'r aelodau yn teimlo nad ydi'r gwresogyddion sydd yn Siop Siarad yn ddigonol i gynhesu'r ystafell felly mae un o aelodau Nefyn am edrych i mewn i gael rhai gwell a cael prisiau erbyn cyfarfod mis nesaf.

10. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
Dim.

11. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

12. **Ceisiadau Diweddarach**

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/01/2025 am 7yh

**C24/1119/42/LL** – Tir ger Helyg, Tai Lôn, Nefyn – Cais llawn i godi hyd at 14 o dai fforddiadwy (dosbarth defnydd C3) ynghŷd a datblygiadau cysylltiol gan gynnwys creu mynedfa gerbydol a ffordd stad newydd, gofod mwynderol, tirlunio a gwelliannau bioamrywiaeth.
**Penderfyniad**: Gwrthod – Mae Polisi Gosodiadau cyfredol Cyngor Gwynedd yn mynd yn groes i PS1 sef Polisi Gwarchod y Gymraeg.
**Cynnig**: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1638.29 (taliad Bacs)
- D M Parry – trydydd taliad mynwent Edern - £550.00
- HMRC – PAYE Mis 9 - £278.53
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Rhagfyr - £128.59
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £26.40
- Archwilio Cymru – archwiliad allanol 2023-2024 - £200.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Enid Owen Williams a Thomas Williams – £1000.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ashley Hughes – coeden nadolig Nefyn - £147.50
- Elfed Roberts – coeden nadolig Nefyn - £147.50
- Sied DIY – coeden nadolig Morfa - £20.00
- G W Parry – angladd Robert Gwyn Jones - £915.00
- Bryn Noddfa – coeden nadolig Morfa - £15.00
- Steven John – coeden nadolig Edern - £295.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com